# Cofnodion y cyfarfod o'r Grŵp Ecosystemau Trefol
# a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2014
# yn Swyddfa CNC Bangor (Maes y Ffynnon)

**Yn bresennol**
Amanda Davies (AD), Pete Frost (PF)(cadeirydd), Liz Howe (EH), Jan Sherry (JS), Dave Thorpe (DT)

| Eitem | Teitl | Nodiadau |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniadau a Chroeso | |
| 2 | Ymddiheuriadau a chyflwyniadau ar gyfer Unrhyw Fater Arall | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Nigel Ajax-Lewis, Clare Dinham, Rebecca Sharp, Steve Chambers, a Dafydd Fryer.<br>Nid oedd unrhyw fater arall. |
| 3 | Cofnodion y cyfarfod diwethaf | Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod manwl gywir. |
| 4 | Cyfathrebu | Dywedodd PF nad oedd cyllideb wedi cael ei neilltuo iddo ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol i ddatblygu gwaith y Grŵp Ecosystemau Trefol. Dywedodd DT bod sibrydion am danwariant. **Cam Gweithredu 1. PF** i ymchwilio a gofyn am gyllideb ar gyfer gwaith cyfathrebu'r grŵp hwn. **(Cwblhawyd, 11/06/14)**<br><br>**Cytunwyd** y dylai'r daflen, y cyfarwyddyd a'r cyflwyniad ar OMHoPDL fod yn gyhoeddiadau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn hytrach nag yn eiddo i unrhyw un sefydliad.<br><br>**Cytunwyd** i ofyn am gyfieithiad gan uned gyfieithu CNC.<br><br>Gan fod Buglife wedi cynnal cymaint o'r gwaith ar reoli'r OMHoPDL **Cytunodd** y Grŵp y dylid gofyn iddynt lunio taflen a chyfarwyddyd rheoli OMHoPDL. Ni fyddai unrhyw sefydliad arall yn gallu cystadlu yn erbyn profiad Buglife ac felly byddai ymarfer tendro agored yn wastraff ar arian cyhoeddus.<br><br>Byddai'r fanyleb ar gyfer y daflen yn cael ei hanelu at gynulleidfa gyffredinol (e.e. aelodau etholedig awdurdod lleol) heb unrhyw gyswllt blaenorol ag OMHoPDL a fawr ddim gwybodaeth am fioamrywiaeth.<br><br>Byddai'n ofynnol i'r contractwr gysylltu â'r RSPB, yr Ymddiriedolaeth Gadwraeth ar gyfer Amffibiaid ac Ymlusgiaid, a Plantlife i sicrhau bod adar, ymlusgiaid a llystyfiant yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y cyfarwyddyd rheoli. **Cytunwyd** y dylid cynhyrchu'r cyfarwyddyd rheoli ar bapur ac ar y rhyngrwyd, gyda dolenni at gynlluniau rheoli ac at gamau gweithredu BARS perthnasol, fel bod darllenwyr yn gallu gweld esiamplau real o beth mae eraill wedi'i wneud yn y maes gwaith hwn. **Cam Gweithredu 2: PF** i lunio manyleb ddrafft a rheoli proses gynhyrchu'r daflen a'r cyfarwyddyd rheoli.<br><br>Gellid llunio'r "cyflwyniad safonol" heb ddim cost gan ddefnyddio lluniau ac esiamplau wedi'u darparu gan aelodau'r grŵp hwn. **Cam Gweithredu 3: PF** i ysgrifennu drafft a'i ddosbarthu ar gyfer sylwadau yn barod i gytuno ar y cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf, **Pawb** i anfon lluniau a phwyntiau allweddol at PF **erbyn diwedd mis Mehefin.**<br><br>Yn unol â Cham Gweithredu 7 y cofnodion diwethaf, roedd Buglife wedi cadarnhau bod ganddo wybodaeth, lluniau a thestun yr oedd yn fodlon caniatáu iddynt gael eu defnyddio yn ein gwaith cyfathrebu. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Mapio | Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, dywedodd JS nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth newydd na data digidol gan ecolegwyr llywodraeth leol (Cam Gweithredu 4 blaenorol). Roedd Cofnod wedi dweud bod ganddynt gyfres ddata o safleoedd bywyd gwyllt yr awdurdod lleol, ond nid oedd gan y rhain wybodaeth am y mathau o gynefinoedd oedd yn cael eu cynrychioli ar y safleoedd. **Cam Gweithredu 4: JS** i holi am hyn a gweld a oedd data am gynefinoedd wedi'u hychwanegu.<br><br>Dywedodd AD bod dau safle yng Ngogledd Ddwyrain Cymru wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio methodoleg DEFRA OMHoPDL fel prawf, ac nad oedd unrhyw fapiau o OMHoPDL ar gael gan yr Ymddiriedolaethau Natur (Cam Gweithredu 3 blaenorol).<br><br>Dywedodd DT bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael data GIS ar fwyngloddiau metel, safleoedd segur a thir llygredig. **Cam Gweithredu 5: DT** i geisio cael y data perthnasol.<br><br>**Cytunwyd** i gyhoeddi map pendant ar gyfer Cymru gyfan o Safleoedd Blaenoriaeth ac OMHoPDL, yn seiliedig ar y data a gynhyrchwyd gan brosiect ymchwil DEFRA a gynhaliwyd gan exegesis. **Cam Gweithredu 6: JS** i gyfuno unrhyw wybodaeth newydd gan awdurdodau lleol gyda data DEFRA yn un haen GIS a thynnu sylw at safleoedd a oedd ar y rhestr wreiddiol o safleoedd allweddol a luniwyd ar ddechrau oes y grŵp hwn. **PF** i sicrhau rhestr ddiweddar o gysylltiadau'r awdurdodau lleol gan PBC ac ysgrifennu atynt yn rhoi gwybod iddynt am y map safleoedd blaenoriaeth a sut i gael copi ohono. **PF** i drefnu i'r data gael ei roi yng nghyfleuster lawrlwytho data CNC.<br><br>Rhagwelwyd y byddai awdurdodau lleol yn dymuno diweddaru'r map hwn o bosib a **Chytunwyd** i gynnig cyflwyniad i'r cyfarfod ALGE ym mis Hydref. **Cam Gweithredu 7: AD** i drefnu lle ar yr agenda **PF** i baratoi cyflwyniad **JS** a **DT** i ateb cwestiynau technegol.<br><br>Dywedodd PF bod Ymddiriedolaeth Natur Durham wedi creu system o'r enw EcoServ GIS a oedd yn ymddangos fel pe bai'n gwneud yr un gwaith â'r "blwch adnoddau gwasanaethau ecosystemau" sydd wedi'i nodi yn rhaglen waith y Grŵp. Mae Jenny Elliot o CNC yn trafod sut gellir trwyddedu hwn a'i addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru ar y cyd ag Ymddiriedolaethau Natur Cymru, heb glymu i ddefnyddio "system berchnogol". PF a Jenny yn arwain y prosiect hwn ar y cyd ac yn adrodd yn ôl i reolwyr CNC drwy gyfrwng Russell Elliot (Cam Gweithredu 8 blaenorol). |
| 6 | Adroddiadau gan yr aelodau | Cyflwynodd Buglife ddiweddariad ysgrifenedig a hefyd Dafydd Fryer o CNC. Mae'r rhain wedi'u hatodi i'r cofnodion hyn fel gwybodaeth ddefnyddiol i aelodau PBC.<br><br>Nodwyd bod CNC wedi cael arian o'r Gronfa Natur ar gyfer ardal beilot yn Rhondda Cynon Taf a allai fod o ddiddordeb i Buglife wrth gynllunio ei brosiect B-Lines yn ne Cymru. **Cam Gweithredu 8: JS** i ddarparu manylion am y peilot yn RhCT, **PF** i anfon ymlaen i Buglife.<br><br>Yn y cyfarfod nesaf bydd diweddariadau ar brosiectau'r Gronfa Ecosystemau Cadarn yn Wrecsam a de Cymru **Cam Gweithredu 9: PF** |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | Anghenion ymchwil a bylchau tystiolaeth (eitem sefydlog) | Mae'n ymddangos nad oes rhestr benodol o rywogaethau sy'n gyfyngedig i gynefinoedd wedi'u creu gan ddyn, neu'n ddibynnol arnynt, gan gynnwys rhandiroedd, yng Nghymru.<br><br>Nododd y grŵp hefyd bod y ddarpariaeth o randiroedd wedi newid yng Nghymru a bod ymchwil diweddar yn awgrymu y gallai hyn effeithio ar beillwyr. Awgrymwyd prosiect i edrych ar yr effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'i chael o bosib, ac i allosod effaith y tueddiadau presennol yn y ddarpariaeth o randiroedd os byddant yn parhau i'r dyfodol.<br><br>**Cytunwyd** i ychwanegu'r prosiectau hyn at y gofrestr Bylchau Tystiolaeth. **Cam Gweithredu 10: PF** i ddrafftio'r cofnodion a dosbarthu i **Bawb** ar gyfer sylwadau cyn eu hanfon i PBC. |
| 9 | Polisïau | Nodwyd bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi cynnig ar gyfer Rheoliad ar atal a rheoli mewn perthynas â chyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron ymledol. Gweler: http://ec.europa.eu/environment/nature/invasivealien/index_en.htm<br>**Cam Gweithredu 11: DT** i barhau i adolygu hyn a drafftio unrhyw ymateb sy'n ofynnol gan y grŵp hwn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar gynllunio adnoddau naturiol. Gweler: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/?lang=en<br>**Cam Gweithredu 12: PF** i ganfod a chysylltu â swyddog arweiniol CNC ar gynllunio adnoddau naturiol ac adrodd yn ôl i'r grŵp hwn.<br><br>**Cam Gweithredu 13: Pawb** i ddod ag unrhyw ymgynghoriadau, deddfwriaethau neu bolisïau perthnasol i sylw'r grŵp hwn wrth iddynt ddod yn ymwybodol ohonynt. |
| 10 | Gwirio camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf | Mae pob cam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith neu eu cynnwys yn y camau gweithredu o'r cyfarfod hwn. |
| 11 | Adolygu aelodaeth | Cynrychiolaeth academaidd: Lorraine Frater o Brifysgol Caerdydd yw cynrychiolydd academaidd y grŵp ac mae wedi bod o help mawr ac yn weithgar er nad yw wedi gallu mynychu llawer o'r cyfarfodydd. Awgrymir bod y grŵp yn recriwtio cynrychiolydd academaidd ychwanegol gydag arbenigedd yn ein maes gwaith, i ategu cyfraniad Lorraine.<br><br>**Cam Gweithredu 14: Pawb** i hysbysu'r cadeirydd o'r awgrymiadau ar gyfer cynrychiolydd academaidd ychwanegol addas ar ôl derbyn y cofnodion hyn. |
| 13 | Cadarnhau camau gweithredu o'r cyfarfod hwn | Cadarnhawyd y camau gweithredu o'r cyfarfod hwn. |
| 14 | Lleoliad a dyddiad y cyfarfod nesaf | Awgrymwyd y dylai'r cyfarfod nesaf gynnwys ymweliad safle ac y dylai fod yn ne Cymru. Byddwn yn holi'r aelodau am y cyfarfod nesaf gan ddefnyddio Meet-o-Matic neu wasanaeth rhyngrwyd tebyg. **Cam Gweithredu 15: Pawb** i awgrymu lleoliadau addas ar gyfer ymweliad safle a **PF** i osod dyddiad.<br><br>Ni fydd PF yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod cadeiryddion PBC a chytunodd JS i gynrychioli'r grŵp yn ei le. **Cam Gweithredu 16: JS** i fynychu ac adrodd yn ôl. |